Cyfarfod ar Y Cyd rhwng
Grŵp Cefnogi Sefydliadau Gwirfoddol Gogledd Cymru a Grŵp Cyfnewid Gwybodaeth Hawliau Plant Gogledd Cymru

Joint meeting of
North Wales Voluntary Organisations support Group and the
North Wales Children's Rights Practice Exchange Group
Dydd Mawrth/Tuesday 7 Gorffennaf/July 2009

Comment [a1]:

COFNODION

Presennol: Anita Myfanwy (Cadeirydd), Allison Hughes (cofnodion), Ann Williams, MYM; Ann Westmoreland, CGGC; Kirsten Buchanan, Draig Ffynci; Lynne Powell, CCCCC; Lindy Duncalf, Ty Gobaith; Arwyn Roberts, Draig Ffynci; Siwan Roberts, Draig Ffynci; Rhian Hughes, Wales Co-Op; Violet Greaves, Home-Start; Yvonne Brookes, Afasic; Jennifer Jones, Cymorth i Ferched; Hawis Jones, CLlLC; Ann Vaughan Jones, Mantell Gwynedd; Maggie Kelly, CCCCC; Angharad Ab Iorwerth, Genesis Gwynedd; Cynthia Owen, MYM; Kevin Williams, Barnardo's.

Siaradwyr: Anne Parry, Papyrus
Hawis Jones, CLILC
Gareth Thomas & Pat Doorbar, TJB Cymru

1. Ymddiheuriadau:

Judi Jones, CCCCC; Wendy Roberts, Clybiau Plant Cymru; Siân Ap Dewi, GICC; Holly Evans, FFAC; Julie Edwards, CPC; Delyth Owen, Partneriaeth Pobl Ifanc Ynys Môn; Sheila Chapman, WPPA; Suzanne Bradley, CGGD; Pam Boyd, ContinYou.

2. Cofnodion y Cyfarfodydd Diwethaf

Darllenwyd cofnodion Grŵp Cefnogi Sefydliadau Gwirfoddol Gogledd Cymru a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir.

Gofynnodd Anita i'r grŵp os oedd pawb yn gyfarwydd â Sylwadau Clo'r CCUHP ac aeth drostynt yn fyr ac eglurodd sut y daethant i fodolaeth. Pwysleisiodd Anita bwysigrwydd fod Gwneuthuwyr Polisi yn ymwybodol o'r Sylwadau Clo.

Darllenwyd cofnodion Grŵp Cyfnewid Gwybodaeth Hawliau Plant Gogledd Cymru a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir gyda'r materion canlynol yn codi:

(4) Gofynnodd Anita a oedd pawb yn gyfarwydd â Chynllun Peilot Tlodi Plant Gwynedd, a fydd yn dod i ben mis Medi, ond y gobaith yw y bydd 3 ysgol arall yng Ngwynedd yn cymryd rhan yn y cynllun.

3. Cyflwyniad ar waith Papyrus gan Anne Parry

Cyflwynodd Anita Anne i'r Grŵp gan eu hatgoffa bod Pwyllgor Sylwadau Clo CCUHP wedi tynnu sylw at y niferoedd uchel o hunanladdiadau ymysg pobl ifanc yn y Deyrnas Unedig.

Dechreuodd Anne wrth ddiolch i'r grŵp am y gwahoddiad i siarad yn y cyfarfod. Sefydliad gwirfoddol yw Papyrus sy'n ymrwymedig i atal hunanladdiad mewn pobl ifanc. Sefydlwyd yn 1997 gan rieni a oedd wedi colli mab neu ferch i hunanladdiad. Ar ôl 14 mis derbyniodd Papyrus grant ac er ei fod yn elusen fach, mae wedi cael enw da iddo'i hun. Mae'r pencadlys yn Burnley, mae ganddynt 12 ymddiriedolwyr a llinell gymorth sydd wedi ei lleoli yn Abertawe. Un o'r nifer o amcanion Papyrus yw cynrychioli'r bobl sydd wedi eu heffeithio gan hunanladdiad, nid rhieni yn unig.

Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r Comisiwn Cwynion y Wasg er mwyn lleihau effaith gohebu ar hunanladdiad, gan fod efelychu hunanladdiadau yn gallu digwydd. Dylai dulliau hunanladdiad byth cael eu cyhoeddi yn y wasg a phe digwyddid hyn mae Papyrus yn rhoi cwyn ymlaen i Gomisiwn Cwynion y Wasg. Er nad yw hi'n bosib tynnu'n ôl beth sydd eisoes wedi ei gyhoeddi mae modd newid y wybodaeth a geir ar safleoedd gwe. Mae Papyrus yn ymgyrchu ar gyfer defnyddio'r we yn ddiogel.

Mae Strategaeth Genedlaethol Atal Hunanladdiad ar gael yn Lloegr, Yr Alban a'r Iwerddon. Mae cynllun gweithredu ar ddogfen cyfnod ymgynghori yng Nghymru ac mae nifer o sefydliadau wedi ymrwymo iddo.

Soniodd Anne wrth y grŵp am ei phrofiad trasig personol, gan ei bod wedi colli ei mab i hunanladdiad. Esboniodd Anne, nad un rheswm yn unig sy'n arwain at hunanladdiad, fel arfer mae yna lawer o ffactorau yn cyfrannu ato, beth mae Anne yn ei alw'n "goctel llethol" o ddigwyddiadau sy'n gallu arwain at hyn ac mae hi'n bwysig adnabod yr arwyddion sydd fel arfer yna.

Cafodd aelodau'r grŵp lenyddiaeth ar Papyrus.

Mae gan Papyrus safle we: www.papyrus-uk.org <http://www.papyrus-uk.org> gyda gwybodaeth ar gyhoeddiadau, pecynnau hyfforddi, seminarau a llinell gymorth o'r enw HOPELineUK (tel: 0870 170 4000 neu 01978 367333) sydd ar agor bob diwrnod o'r flwyddyn.

Cwestiynau/Sylwadau:

- A oes gwasanaethau ar gael ar gyfer plant sy'n dioddef o iselder ysbryd blaen-lencyndod? - **Mae CAMHS yn ymwybodol bod plant ifanc yn dioddef gydag iselder ysbryd.**

- Nodwyd bod cwrs cymorth cyntaf iechyd meddwl newydd ar gael - **Mae Mind Cymru wedi derbyn arian loteri ar gyfer Project Positive Choices. Cynhelir cynhadledd yn yr Interchange, Bae Colwyn ar 6 Hydref 2009, a chadeirir ef gan Anne**.

- Mae canran uchel o blant mor ifanc â 5 oed gydag iselder ysbryd. Mae hi'n bwysig dysgu plant sut i ddelio gyda'u teimladau.

- Nodwyd bod yr NSPCC wedi cyhoeddi adroddiad gan fod prinder arian i gynnal Childline ac mae hi'n anodd iddynt ddarparu gwasanaeth. **Mae Anne yn ymuno â chyfarfod gyda'r NSPCC fory.**

- Gofynnwyd a yw Papyrus yn rhoi cymorth ar sut i egluro sefyllfaoedd i aelodau eraill o'r teulu? **Ydy.**

4. Cyflwyniad ar waith yr Uned Cefnogi'r Partneriaethau i roi cymorth i waith y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc gan Hawis Jones

Cyflwynodd Hawis ei hun i'r grŵp ac eglurodd ei bod yn gweithio yn yr Uned Cefnogi partneriaethau (UCP) sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Cafodd ei sefydlu fel ymateb i angen a welwyd i gefnogi gweithredu Deddf Plant 2004 yng Nghymru, cryfhau gwaith partneriaeth a chynllunio strategol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc.

Diben UCP yw helpu i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc drwy gefnogi gwaith partneriaeth a chynllunio strategol. Maent yn gweithio'n gydweithredol gyda'r 22 o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc ac yn adnodd i bob asiantaeth bartner gan gynnwys awdurdodau lleol, iechyd, y sector gwirfoddol, swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a CLILC. Mae ganddynt 5 llwybr gwaith fel a ganlyn:

- Gweithio gyda phartneriaid
- Gwybodaeth
- Prosiectau arbennig
- Digwyddiadau
- Gweinyddiaeth a rheolaeth tîm

Mae pecyn gwybodaeth wrthi'n cael ei ddatblygu ar ymglymu sefydliadau gwirfoddol yn y broses comisiynu.

Mae digwyddiadau fel Lles Plant a Phobl Ifanc (Nod Craidd 3) gyda siaradwyr o Ddiogelwch Dros y We yn rhad ac am ddim ac bydd yn cael ei werthuso.

Bydd rhaglen waith y dyfodol yn cynnwys datblygu'r safle we www.psucymru.org.uk <http://www.psucymru.org.uk> , parhau i gefnogi partneriaethau PPI, rheoli perfformiad a.y.b., atebolrwydd ar sail canlyniadau, datblygu'r gweithlu, comisiynu, cyfranogiad ac eiriolaeth, tlodi plant, materion gwledig, gwerthuso gan LICC. Dosbarthwyd llyfryn i aelodau'r grŵp.

Cwestiynau/Sylwadau

- Nid yw pob partneriaeth yn cael yr un arweiniad ac mae'r pwyslais yn gallu newid o sir i sir.

- Mae atebolrwydd ar sail canlyniadau yn caniatáu i asiantaethau ddatblygu/gwerthuso perfformiadau eu hunain. Mae'r Cynulliad yn datblygu pecyn hunanasesiad ar hyn o bryd.

5. Cyflwyniad ar Dan Straen! Pecyn i Athrawon gan Gareth Thomas and Pat Doorbar

Sefydlwyd TJB Cymru yn 2001 ac mae wedi ei leoli ym Mhenrhyndeudraeth. Yn dilyn ymchwil i mewn i ganfyddiadau trigolion Conwy wledig ar faterion iechyd a lles, mae TJB Cymru wedi cynhyrchu pecyn i athrawon sydd yn galluogi plant i ddysgu am beth sy'n achosi straen, ei effaith ar y corff a thechnegau ar sut i leihau'r symptomau.

Yn dilyn gwaith mewn 2 rhanbarth yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar dangoswyd nifer o ffactorau sy'n effeithio ar les plant fel a ganlyn:

Maent yn:

- Cael eu bwlio
- Yn unig
- Dan bwysau oherwydd gwaith ysgol
- Poeni am eu rhieni, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd ariannol yma
- Poeni am gangiau
- Poeni am gyffuriau ac alcohol

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Cynlluniau gwersi
- Deunyddiau - taflenni, modelau a gwybodaeth gefndirol
- Hyfforddiant mewn technegau i ddelio â symptomau ffisegol straen
- Rhesymwaith ar pam mae'r technegau yma'n effeithiol

Mae adnoddau eraill gan TJB Cymru yn cynnwys: Plant dan Straen!, Rhieni dan Straen! Teuluoedd dan Straen!, Staff dan Straen! Mae ganddynt hefyd gwrs arbennig ar gyfer gweithwyr gofal plant a phlant eu hunain. Mae'r cyrsiau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gareth: gareth@tjbcym.net <mailto:gareth@tjbcym.net> Dosbarthwyd deunydd i'r grŵp.

Cwestiynau/Sylwadau:

- Oes yna beryg i blant esgusodi ymddygiad eu rhieni mewn sefyllfa trais yn y cartref? - **Na - rydym yn gwneud y ffiniau'n eglur ac os yw plant yn sôn am sefyllfaoedd fel hyn rydym yn delio gyda nhw yn ystod y sesiwn.**
- Ydi TJB Cymru wedi siarad gyda phob plentyn yn Nolgarrog? - **Na dim ond blynyddoedd 5 a 6 sydd wedi eu targedu.**

- Pwy sydd yn trosglwyddo'r cyrsiau i deuluoedd? – **TJB Cymru.**

- Sut yr ydych yn gweld y project yn datblygu? **Mae TJB Cymru yn gofyn i'r grŵp am syniadau ac am wybodaeth ar sut ac i bwy y dylid dosbarthu'r pecynnau.**

- Awgrymwyd efallai y bydd yn ddefnyddiol i ddelio â bwlio.

Gareth i e-bostio gwybodaeth i Allison er mwyn dosbarthu i'r grŵp.

6. Rhannu Gwybodaeth

- Mae yna gynnig i newid enw Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru i Gymdeithas Cylchoedd Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru. Os yw hyn yn cael ei gytuno yn dilyn ymgynghoriad, bydd y newid yn digwydd ym mis Tachwedd 2009.
- Cynhelir cyfarfod blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin ar 03/10/09 yng Nglasdir, Llanrwst. Bydd cynhadledd yn y Metropol, Llandrindod ar 01/10/09 hefyd.
- Digwyddiad hyfforddiant Plant yng Nghymru – Cyflwyniad i Hawliau Plant ar 21/09/09 yng Nghaerdydd ac ar 19/11/09 yng Ngogledd Cymru, lleoliad i'w gadarnhau.
- Deddf Tlodi Plant
- Cododd Anita ymwybyddiaeth ar Fesur Tlodi Plant ac Allgau Cymdeithasol Plant Cymru, y Bevan Foundation
- Briffio gan CLlLC - Hawis i'w yrru at Allison er mwyn dosbarthu i'r grŵp.
- Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd yn ei ail gyfnod.

7. Unrhyw Faterion Eraill

Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w drafod.

8. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

Grŵp Cefnogi Sefydliadau Gwirfoddol Gogledd Cymru

13/10/09
12/01/10

Grŵp Cyfnewid Gwybodaeth Hawliau Plant Gogledd Cymru

06/10/09
19/01/10

Diolchodd Anita i'r siaradwyr am eu cyfraniadau gwerthfawr ac i bawb yn y grŵp am fynychu.